

**Mesur perfformiad ysgolion Cymru:
gwerthoedd cyfraniadol cymwysterau**

OGL

ISBN digidol 978 1 78859 512 4
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2019
WG33083

Cynnwys

Rhestr eirfa	2
Fersiwn	3
Cyflwyniad	4
Cymhwysedd	4
Cyfrifo mesurau perfformiad ysgolion	5
Crynodeb o gyfrifo gwerthoedd cyfraniadol	5
Tabl cymhwyster cyfateb i TGAU/TAG Safon Uwch	6
Gwerthoedd GLH tybiannol	6
Tablau pwyntiau sylfaen	7
Eithriadau	8
TGAU (9-1)	8
Cymwysterau graddedig	9
Tystysgrifau Her Sgiliau	10

Rhestr eirfa

Maint – mae maint cymhwyster yn seiliedig ar faint o amser ar gyfartaledd mae'n cymryd i addysgu'r cymhwyster, a ddynodir fel gwerth oriau dysgu dan arweiniad, ac ar ba lefel y mae ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

Pwyntiau perfformiad – wedi'u dynodi i gymhwyster ar sail ei faint, ei lefel ar FfCChC a'r radd a gafwyd.

Lefel cymwysterau – dangos lefel cyrhaeddiad pob cymhwyster. Lefel 1 = graddau D i G ar lefel TGAU neu gyfwerth, Lefel 2 = graddau A*i C ar lefel TGAU neu gyfwerth, Lefel 3 = Safon Uwch neu gyfwerth.

Pwyntiau sylfaen – defnyddir i gyfrifo'r pwyntiau perfformiad. Pwyntiau perfformiad = cyfwerth â TGAU x pwyntiau sylfaen ar gyfer mesurau CA4 a chyfwerth â Safon Uwch x pwyntiau sylfaen ar gyfer mesurau CA5.

Fersiwn

Fersiwn	Dyddiad	Diben/Newid
1		
2	23/07/2019	Rydym wedi cael gwared ar yr hen wybodaeth am fesurau perfformiad.

Cyflwyniad

Mae perfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y cyfnod ÔI-16 yng Nghymru yn cael ei fesur ar sail cymwysterau allanol sy'n cael eu dyfarnu i'w disgyblion. Caiff gwerthoedd cyfraniadol y cymwysterau hyn eu nodi yn nhermau cymwysterau cyfatebol i TGAU/TAG Safon Uwch a phwyntiau perfformiad fel bod modd cymharu cyrhaeddiad cymwysterau o feintiau a strwythurau graddio gwahanol ar lefelau gwahanol o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae lefel FfCChC y cymhwyster yn ogystal â'r radd a gyflawnwyd yn cynrychioli *her* y cymhwyster. Cofiwch, bydd safle'r cymhwyster yn FfCChC yn nhermau ei lefel, yn rhannol, yn penderfynu a fydd yn cyfrannu at fesurau rheoli perfformiad ysgolion yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael [yma](#).

Mae gwerthoedd cyfraniadol y cymwysterau hyn yn cyfrannu at y broses o gyfrifo mesurau perfformiad.

Nod atodi gwerthoedd cyfraniadol i gymwysterau allanol yw cefnogi system adrodd am berfformiad ysgol, ac nid yw wedi'i fwriadu na'i gynllunio i gynrychioli cyraeddiadau dysgwyr unigol.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r sail resymegol dros gyfrifo gwerthoedd cyfraniadol cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi i'w cyflwyno i ddysgwyr yng Nghymru gan y corff rheoleiddio, Cymwysterau Cymru o 2017 ymlaen. Gallwch weld y cymwysterau hyn ar wefan Cymwysterau yng Nghymru . Mae rhagor o wybodaeth am fesurau perfformiad ysgolion a diffiniadau yng Nghymru ar gael yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Nodwch, defnyddir y tablau yn y ddogfen i gyfrifo pwyntiau perfformiad a chymwysterau cyfatebol i TGAU/TAG Safon Uwch ar gyfer ysgolion yng Nghymru, ac felly ni ellir eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r DU.

Cymhwysedd

Mae cymwysterau'n gymwys i briodoli gwerthoedd cyfraniadol pan maent wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru ac wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi am gyllid dan Adran 96 ar gyfer yr ystod oedran perthnasol yng Nghymru. Os caiff cymhwyster ei reoleiddio a'i gymeradwyo/dynodi, bydd yn cael rhif cymhwyster unigryw ac yn cael ei gadw ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru. Bydd cymhwyster ond yn cael ei gyfrif mewn cyfrifiadau mesur perfformiad yn unol â'r gwerthoedd cyfraniadol a bennwyd ar gyfer y flwyddyn ddyfarnu honno, os nad yw dyddiad diwedd ardystio'r dyfarniad wedi pasio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i newid gwerthoedd cyfraniadol cymwysterau heb roi rhybudd ymlaen llaw, er mwyn cynnal cywirdeb ac ansawdd y system mesur perfformiad ysgolion.

Cyfrifo mesurau perfformiad ysgolion

Crynodeb o gyfrifo gwerthoedd cyfraniadol

Dangosir gwerthoedd cyfraniadol cymhwyster mewn dwy ffordd:

1. ei 'faint', yn nhermau cymhwyster cyfatebol i TGAU neu TAG Safon Uwch:

Mae maint cymhwyster yn seiliedig ar faint o amser ar gyfartaledd mae'n cymryd i addysgu'r cymhwyster, a ddynodir fel gwerth oriau dysgu dan arweiniad, a'i lefel ar FfCChC (*Tabl 1*); a

2. ei bwyntiau perfformiad:

Dynodir pwyntiau perfformiad i gymhwyster ar sail ei faint, ei lefel ar FfCChC a'r radd a gafwyd.

Ar gyfer mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4:

Pwyntiau perfformiad = cyfateb i TGAU o ran maint (*Tabl 1*) x pwyntiau sylfaen (*Tablau 2a-c*)

Ar gyfer mesurau perfformiad Ôl-16 oed:

Pwyntiau perfformiad = cyfateb i TAG Safon Uwch o ran maint (*Tabl 1*) x pwyntiau sylfaen (*Tablau 2a-c*)

Tabl cymhwyster cyfateb i TGAU/TAG Safon Uwch

Tabl 1 – cyfateb i TGAU/TAG Safon Uwch

Band Maint	Oriau dysgu dan arweiniad (GLH)		Cyfateb i TGAU o ran maint ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4	Cyfateb i TAG Safon Uwch o ran maint ar gyfer mesurau Ôl-16	
	Isafswm	Uchafswm	Cymwysterau lefel mynediad, lefel 1 neu lefel 2	Cymwysterau Lefel 3	
A	1	44	0.25	0.4	0.1
B1	45	59	0.25	0.8	0.2
B2	60	89	0.5	0.8	0.2
C1	90	119	0.5	1.2	0.3
C2	120	144	1	1.2	0.3
D	145	234	2	2	0.5
E	235	324	2	3	0.75
F	325	414	2	4	1
G	415	504	2	5	1.25
H	505	594	2	6	1.5
I	595	684	2	7	1.75
J	685	774	2	8	2
K	775	864	2	9	2.25
L	865	954	2	10	2.5
M	955	1044	2	11	2.75
N	1045	1134	2	12	3
O	1135	1224	2	13	3.25
P	1225	-	D/B	14	3.5

Er enghraifft, mae Tabl 1 yn dangos y byddai cymhwyster o 100 GLH ar Lefel 3 yn cyfateb i 0.3 Safon Uwch, neu 1.2 TGAU. Byddai cymhwyster tebyg o ran maint ar Lefel 1 neu Lefel 2 yn cyfateb i 0.5 TGAU. Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau, ni all unrhyw lefel 1 / 2 unigol neu gymhwyster lefel mynediad yng CA4 fod yn werth mwy na chymhwyster sy'n cyfateb i 2 TGAU.

Gwerthoedd GLH tybiannol

Mewn rhai sefyllfaoedd, nid yr oriau dysgu dan arweiniad a nodir ar gronfa ddata [Cymwysterau yng Nghymru](#) yw'r oriau dysgu dan arweiniad a ddefnyddir fel sail i gyfateb o ran maint, wrth gyfrifo gwerth cyfraniadol. Yn yr achosion hyn, bydd *gwerth GLH tybiannol* yn cael ei gyfrifo, waeth beth yw'r oriau dysgu dan arweiniad a nodir:

- Mae cymhwyster TGAU llawn bob amser yn 120 GLH (mae cwrs byr yn 60 a dyfarniad dwbl yn 240)
- Mae cymhwyster TAG Safon Uwch llawn bob amser yn 360 GLH (mae Safon UG yn 180 a dyfarniad dwbl yn 720)

Tablau pwyntiau sylfaen

Ar ôl pennu maint cymhwyster gan ddefnyddio Tabl 1, dylid canfod y pwyntiau sylfaen wedyn er mwyn cyfrifo'r pwyntiau perfformiad. Mae Tablau 2a-d yn cyflwyno'r pwyntiau sylfaen ar gyfer y strwythurau a'r lefelau graddio gwahanol. Nodwch nad yw rhai cymwysterau'n dilyn y drefn hon – mae rhagor o wybodaeth am y cymwysterau hyn ar gael yn yr adran Eithriadau.

Tabl 2a – Cymwysterau lefel mynediad

Er bod modd rhannu cymwysterau lefel Mynediad yn lefelau Mynediad gwahanol, mae ganddyn nhw strwythur syml 'pasio yn unig' fel y gwelir isod.

Lefel Mynediad	Mynediad 1	Mynediad 2	Mynediad3
Pasio	10	12	14

Tabl 2b – Cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2

Strwythur gradd Lefel 1	Gradd enghreifftiol	Pwyntiau sylfaen
Cyffredinol pasio yn unig	Pasio	25
NVQ pasio yn unig	Pasio	28
Cynllun 2 radd	Pasio	22
	Credyd	31
Cynllun 3 gradd	Pasio	19
	Teilyngdod	28
	Rhagoriaeth	34
Cynllun 4 gradd	G	16
	F	22
	E	28
	D	34
Cynllun 5 gradd	E	16
	D	20.5
	C	25
	B	29.5
	A	34

Strwythur gradd Lefel 2	Gradd enghreifftiol	Pwyntiau sylfaen
Cyffredinol pasio yn unig	Pasio	46
NVQ pasio yn unig	Pasio	49
Cynllun 2 radd	Pasio	43
	Credyd	52
Cynllun 3 gradd	Pasio	40
	Teilyngdod	49
	Rhagoriaeth	55
Cynllun 4 gradd	C	40
	B	46
	A	52
	A*	58
Cynllun 5 gradd	E	40
	D	43
	C	46
	B	49
	A	52

Nodwch yma, gall cymwysterau TGAU fod yn gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2;

- Mae graddau D/E/F/G ar lefel 1, sy'n creu strwythur 4 gradd, ac mae ochr chwith Tabl 2b yn rhoi pwyntiau sylfaen o rhwng 16 a 34.
- Mae graddau A*/A/B/C ar lefel 2, gan greu strwythur 4 gradd arall, ac mae ochr dde Tabl 2b yn rhoi pwyntiau sylfaen o rhwng 40 a 58.

Tabl 2c – Cymwysterau Lefel 3

Strwythur gradd Lefel 3	Gradd enghreifftiol	Pwyntiau sylfaen
Cyffredinol pasio yn unig	Pasio	210
NVQ pasio yn unig	Pasio	240
Cynllun 2 radd	Pasio	195
	Credyd	240
Cynllun 3 gradd	Pasio	165
	Teilyngdod	225
	Rhagoriaeth	270
Cynllun 4 gradd	Pasio	165
	Teilyngdod	195
	Rhagoriaeth	225
	Rhagoriaeth*	270
Cynllun 5 gradd	E	150
	D	180
	C	210
	B	240
	A	270
Cynllun 6 gradd	E	150
	D	180
	C	210
	B	240
	A	270
	A*	300

Mae gan gymwysterau TAG Safon Uwch, Diplomâu Lefel 3 a Cambridge Pre-U radd A*, sy'n ennill pwyntiau ychwanegol nad ydynt ar gael ar gyfer cymwysterau eraill. Dyma'r unig gymwysterau sy'n dilyn y cynllun 6 gradd.

Eithriadau

Nid yw'r rhesymeg a gyflwynir yn y ddogfen hon yn berthnasol dan rai amgylchiadau, ac nid yw gwerthoedd GLH yn cael eu defnyddio i bennu cymwysterau cyfatebol neu bwyntiau – sef TGAU (9-1), cymwysterau graddedig a'r Tystysgrifau Her Sgiliau.

TGAU (9-1)

Mae byrddau arholi sy'n cynnig TGAU wedi'u cynllunio ar gyfer Lloegr wedi cyflwyno system graddio rhifol 9-1 ar gyfer TGAU, gyda 9 fel y sgôr cyrhaeddiad uchaf. Bydd y cymwysterau hyn yn cyfrif mew gwybodaeth am berfformiad yng Nghymru pan fyddant wedi'u dynodi i'w darparu gan Cymwysterau Cymru. Dim ond mewn pynciau cohort isel lle nad oes dynodiad ar wahân i Gymru y disgwylir i hyn effeithio ar Gymru. Mae'r cymwysterau cyfatebol i TGAU o ran maint a'r pwyntiau perfformiad i'w gweld isod. Cawsant eu cyfrifo gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb â'r strwythur 8 gradd gyfatebol ar gyfer TGAU ac maen nhw'n wahanol i'r pwyntiau a ddyrannwyd i'r cymwysterau hyn gan Adran Addysg Lloegr.

Tabl 3b - TGAU (9-1)

Lefel Cymhwyster	Gradd	Pwyntiau perfformiad	Cyfateb i TGAU o ran maint ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4
Lefel 1	1	16	1
	2	24	1
	3	32	1
Lefel 2	4	40	1
	5	44	1
	6	48	1
	7	52	1
	8	55	1
	9	58	1

Cymwysterau graddedig

Mae arholiadau graddedig, boed ar Lefel 1, Lefel 2 neu Lefel 2, **ond** yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4. Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth ar sail Lefel a Graddau er mwyn penderfynu ar bwyntiau perfformiad a chymwysterau sy'n cyfateb i TGAU o ran maint.

Tabl 3b – Dawns, perfformiad cerddorol neu ddawns alwedigaethol

Lefel Cymhwyster	Gradd		Pwyntiau perfformiad	Cyfateb i TGAU o ran maint ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4
Lefel 3	Gradd 8	Pasio	66	1.6
		Teilyngdod	90	
		Rhagoriaeth	108	
	Gradd 7	Pasio	53	1.28
		Teilyngdod	72	
		Rhagoriaeth	86	
	Gradd 6	Pasio	43	1.04
		Teilyngdod	59	
		Rhagoriaeth	70	
Lefel 2	Gradd 5	Pasio	32	0.8
		Teilyngdod	39	
		Rhagoriaeth	44	
	Gradd 4	Pasio	28	0.7
		Teilyngdod	34	
		Rhagoriaeth	39	
Lefel 1	Gradd 3	Pasio	11	0.6

		Teilyngdod	17	0.5	
		Rhagoriaeth	20		
	Gradd 2	Pasio	10		
		Teilyngdod	14		
		Rhagoriaeth	17		
	Gradd 1	Pasio	8		0.4
		Teilyngdod	11		
		Rhagoriaeth	14		

Tabl 3c – Drama, llythrennedd cerddoriaeth, llais neu llais a drama

Lefel Cymhwyster	Gradd		Pwyntiau perfformiad	Cyfateb i TGAU o ran maint ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4
Lefel 3	Gradd 8	Pasio	53	1.28
		Teilyngdod	72	
		Rhagoriaeth	86	
	Gradd 7	Pasio	43	1.04
		Teilyngdod	59	
		Rhagoriaeth	70	
	Gradd 6	Pasio	33	0.8
		Teilyngdod	45	
		Rhagoriaeth	54	
Lefel 2	Gradd 5	Pasio	26	0.65
		Teilyngdod	32	
		Rhagoriaeth	36	
	Gradd 4	Pasio	22	0.55
		Teilyngdod	27	
		Rhagoriaeth	30	
Lefel 1	Gradd 3	Pasio	10	0.5
		Teilyngdod	14	
		Rhagoriaeth	17	
	Gradd 2	Pasio	8	0.4
		Teilyngdod	11	
		Rhagoriaeth	14	
	Gradd 1	Pasio	6	0.3
		Teilyngdod	8	
		Rhagoriaeth	10	

Tystysgrifau Her Sgiliau

Gellir ennill Tystysgrif Her Sgiliau ar lefel Sylfaen (Lefel 1), Cenedlaethol (Lefel 2) ac Uwch (Lefel 3). Mae'r pwyntiau perfformiad i'w gweld isod.

Tabl 4a – Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Bagloriaeth Cymru)

Strwythur gradd Lefel 1	Gradd	Pwyntiau perfformiad	Cyfateb i TGAU o ran maint ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4
Cynllun 2 radd	Pasio	22	1
	Pasio*	34	1

Table 4b – Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (Bagloriaeth Cymru)

Strwythur gradd Lefel 2	Gradd	Pwyntiau perfformiad	Cyfateb i TGAU o ran maint ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4
Cynllun 4 gradd	C	40	1
	B	46	1
	A	52	1
	A*	58	1

Table 4c – Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)

Strwythur gradd Lefel 3	Gradd	Pwyntiau perfformiad	Cyfateb i TAG Safon Uwch o ran maint ar gyfer mesurau ÔI-16
Cynllun 6 gradd	E	150	1
	D	180	1
	C	210	1
	B	240	1
	A	270	1
	A*	300	1